

VTCT Diploma mewn Adweitheg Lefel 3



Yn gwyno

Bydd y cymhwyster hwn yn datblygu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o egwyddorion ac ymarferion ac arferion busnes ar gyfer therapïau cyflenwol.

Ar ben hynny, byddwch yn dysgu am anatomeg, ffisioleg a phatholeg ar gyfer therapïau cyflenwol. Byddwch hefyd yn datblygu eich dealltwriaeth a'ch sgiliau ymarferol i gynnig triniaethau adweitheg safonol.

Mae hwn yn gymhwyster lefel ymarferwr.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...y rhai sy'n mwynhau popeth yn ymwneud â therapïau cyfannol

...unrhyw un sydd â diddordeb brwd mewn therapïau cyflenwol

...gweithwyr diwyd â sgiliau cyfathrebu rhagorol



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs yn ymdrin â'r unedau canlynol:

Egwyddorion ac ymarferion therapïau cyflenwol
Ymarfer busnes ar gyfer therapïau cyflenwol
Gwybodaeth am anatomi, ffisioleg a phatholeg ar gyfer therapïau cyflenwol
Darparu adweitheg ar gyfer therapïau cyflenwol

Darperir y cwrs drwy:

Wersi theori
Sesiynau dysgu ymarferol
Sesiynau clinig
Ymchwil ac astudiaethau achos

Cewch eich asesu trwy arsylwadau ymarferol, aseiniadau ysgrifenedig ac astudiaethau achos ac ar ôl gorffen byddwch yn cyflawni'r Diploma VTCT L3 mewn Adweitheg.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ragofynion na gofynion mynediad ar gyfer y cwrs hwn ond mae cefndir academiaidd cadarn yn hanfodol.

Mae presenoldeb llawn yn hanfodol i gwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus.

Gwybodaeth Ychwanegol

Er mwyn adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent. Bydd y coleg yn ariannu cost un wisg lawn y flwyddyn. Gellir prynu setiau ychwanegol am tua £45 (i'w gadarnhau); bydd staff coleg yn gallu eich cyfeirio at y cyflenwr wedi'i gymeradwyo os/pan fydd angen.

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Mae gofynion eraill yn cynnwys:

Esgidiau da, fflat, cyfforddus (dim canvas)
Gwallt wedi'i glymu'n ôl oddi wrth yr wyneb yn ystod yr holl sesiynau clinig

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dim gemwaith a dim tlysau (heblaw modrwy briodas)

Ni chaniateir unrhyw estyniadau ewinedd na farnais ewinedd. Ewinedd glân, byr ac wedi'u ffeilio

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

